



Mae'r prosiect hwn yn cael ei ariannu gan Rhaglen ARFOR a ariennir gan Lywodraeth Cymru



Busnesa
gwynedd.llyw.cymru



ARFOR
CREU GWAIH - CEFNOG'R IAITH



This project is funded by the ARFOR Programme funded by Welsh Government

THIS IS A JOB WHERE THE ABILITY TO SPEAK AND WRITE WELSH FLUENTLY IS ESSENTIAL

DISGRIFIAD SWYDD

TEITL SWYDD	Rheolwr Prosiect (Datblygu Hwb a Chaffi Pobl Ifanc GISDA)
LLEOLIAD	Caernarfon
ORIAU	15 neu 22.5 awr yr wythnos
CYFLOG	B5 £31,740-£37,353 (pro rata)
CYTUNDEB	Rhagfyr 2024
PRIF BWRPAS Y SWYDD	
<p>Oes gennych chi ddi-ddordeb mewn swydd rhan amser am flwyddyn?</p> <p>Rydym yn chwilio am berson brwdfrydig sy'n gallu gweithredu'n rhagweithiol i arwain a chydlynu datblygiad nwydd GISDA yng Nghaernarfon sef Hwb Pobl ifanc a Chaffi Hyfforddi Pobl ifanc.</p> <p>Byddwch yn arwain ar y gwaith o ddatblygu'r holl gamau i sicrhau bod yr Hwb a'r Caffi yn agor yn ystod gwanwyn/haf 2024</p>	
CYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL	
<p>Ymgynghori - (Sicrhau bod llais pawb yn cael ei clywed yn arbennig pobl ifanc)</p> <ul style="list-style-type: none">• Cyd-drafod y gofod yn gyson efo'r partneriaid perthnasol (Pobl ifanc Gisda, Rheolwr Prosiect Cyngor Gwynedd, Y Contractwr, Tim Rheoli Gisda, Staff Gisda)• Bod yn hollol gyfarwydd efo amserlen y prosiect a phryd bydd y rhanddeiliaid perthnasol angen gwybodaeth gan Gisda e.e. gwaith addurno terfynol.• Sicrhau bod unrhyw waith ymgynghori ac ymchwil ar gyfer gwneud y penderfyniadau uchod yn digwydd yn amserol• Bod yn gyfarwydd efo'r holl waith ymgynghori efo pobl ifanc ynglŷn â Hwb pobl ifanc sydd wedi digwydd hyd yma a sicrhau bod llais pobl ifanc yn cael eu clywed.• Sicrhau bod pobl ifanc yn parhau i fod yn rhan ganolog o ddatblygiad yr hwb a bod eu llais yn rhan o bob sgwrs <p>Cynllunio a dyluniad - Hwb Pobl ifanc a Chaffi GISDA</p> <ul style="list-style-type: none">• Arwain ar gamau sydd eu hangen i weithredu'r cynllun dodrefnu, dyluniad y gofodau, amser agor, staffio a chyfrifo'r adnoddau fydd eu hangen.• Comisiynu a pharatoi briff i artistiaid i addurno'r waliau gan sicrhau ei fod yn ofod sydd yn weledol Gymraeg a Chymreig.• Sicrhau bod yr holl ddatblygiad yng nghyd fynd gyda'r gwerthoedd sydd wedi eu hadnabod yn barod gan bobl ifanc a hefyd gwerthoedd GISDA.	

- Cydlynu'r hyn sydd yn gwneud yr Hwb a'r caffï yn un unigryw e.e.
- 'suspended coffee/coffi cyfaill', bwyd am ddim neu yn rhad, nosweithiau pobl ifanc ac ati
- Sicrhau bod 'stori' Gisda a phwrpas y caffï'n rhan amlwg o'r dyluniad

Brandio a hyrwyddo

- Sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn rhan annatod o ddyluniad Hwb Pobl ifanc GISDA a Chaffï GISDA a'i fod yn cael ei hyrwyddo fel canolfan Gymraeg pwysig sy'n cynnig cyflogaeth, cefnogaeth a chyfleoedd yn y Gymraeg.
- Penderfynu pa arwyddion sydd angen tu fewn a thu allan gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â brand Gisda
- Sicrhau brandio stori Gisda a phwrpas y caffï a rhaglenni fel 'coffi cyfaill' yn amlwg.
- Hyrwyddo'r gofodau sydd ar gael i'w llogi
- Hyrwyddo'r gweithdai a hyfforddiant allanol mae GISDA'n gallu cynnal yn y gofodau.
- Trefnu digwyddiad i ddathlu agoriad Caffï a Hwb Pobl ifanc GISDA.

Cydweithio a rhwydweithio

- Cydweithio gyda staff allweddol yn Gisda – Cydlynydd iaith Gymraeg, Cydlynydd Marchnata, Cydlynydd Llais Pobl ifanc
- Cydweithio gyda thîm Academi i gydlynu rhaglen hyfforddiant a phrofiad gwaith yn y caffï
- Rhwydweithio gydag asiantaethau allanol i fod yn rhan o ofod yr hwb e.e. Pa asiantaethau, rota'r gofod, cefnogaeth ar gael ayyb
- Cynnwys y gymuned a hybu diddordeb i ddefnyddio'r gofod i gynnal cyfarfodydd a digwyddiadau
- Creu cynllun ar gyfer llogi'r gwahanol ystafelloedd/gofodau ar gyfer digwyddiadau, cyfarfodydd ayyb
- Creu rhaglen o weithdai a hyfforddiant mae Gisda yn gallu cynnal i hybu incwm

CYFRIFOLDEBAU CYFFREDINOL

- ⇒ Gweithredu oddi mewn i bolisiau a gweithdrefnau GISDA yng nghyswllt cyfle cyfartal a chydaddoldeb.
- ⇒ Cyfrifoldeb i adrodd am unrhyw bryder neu amheuaeth bod plentyn neu oedolyn bregus yn cael ei gam-drin.
- ⇒ I weithio o fewn fframwaith PIE, yn unol a model therapiwtig GISDA.
- ⇒ I adeiladu perthynas gref, iach ,a chyfeillgar gyda pobl ifanc gan roi y cyfle iddynt ymgysylltu/a mynegi ei hunain mewn awyrgylch ffurfiol ac anffurfiol.
- ⇒ I greu awyrgylch di sefydliad, saff a chroesawgar sydd yn rhoi y cyfle i bobl ifanc drafod a mynegi ei teimladau /pryderon.
- ⇒ I annog, ysgogi a credu mewn pobl ifanc .
- ⇒ I gwblhau achrediau Agored Cymru a cefnogi a hyrwyddo pob cyfle posib yn ymwneud a addysg/hyfforddiant/gwirfoddoli a'r byd gwaith.
- ⇒ Cyfrannu tuag at hyfforddiant a datblygiad personol eich hun.
- ⇒ Hyrwyddo agwedd gyfeillgar, gwrth-wahaniaethol ym mhob agwedd o'r gwaith tuag at

ddefnyddwyr gwasanaeth, cyd-weithwyr, aelodau o'r Bwrdd Rheoli, aelodau o'r cyhoeddacasiaethau eraill.

- ⇒ Hyrwyddo gwerthoedd a diwylliant mewnol y Cwmni.
- ⇒ Hyrwyddo nod ac amcanion y Cwmni.
- ⇒ Ymgymryd ag unrhyw dasgau rhesymol yn ôl yr angen.
- ⇒ Ymlynu at holl bolisiau a gweithdrefnau cyfredol y Cwmni.
- ⇒ Cyfrannu at sesiynau arolygaeth.
- ⇒ Cadw holl wybodaeth sy'n berthnasol i'r Cwmni, y staff a defnyddwyr gwasanaeth y Cwmni yn gyfrinachol.

MANYLDEB PERSON

MEINI PRAWF	HANFODOL	DYMUNOL	DULL ASESU
Addysg a Chymhwysterau	Addysg hyd at gradd neu cymhwyster gyfatebol		Ffurflen Gais a Thystysgrifau
Profiad ac Ymwybyddiaeth Perthnasol i Swydd	Profiad o rheoli prosiect neu busnes	Profiad o weithio mewn menter gymdeithasol	Ffurflen Gais a Chyfweliad
	.	Profiad o weithio efo pobl ifanc	Ffurflen Gais a Chyfweliad
		Gweithio yn y Sector Wirfoddol	Ffurflen Gais a Chyfweliad
Sgiliau Perthnasol i Swydd	Cyfathrebu mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd yn y Gymraeg a'r Saesneg.		Ffurflen Gais a Chyfweliad
	Sgiliau rhyngbersonol da.		Ffurflen Gais a Chyfweliad
	Cadw cofnodion ac ysgrifennu adroddiadau.		Ffurflen Gais a Chyfweliad
	Y gallu i weithio ar eich liwt eich hun.		Ffurflen Gais a Chyfweliad
	Y gallu i weithio fel aelod o dîm.		Ffurflen Gais a Chyfweliad
	Y gallu i ddefnyddio rhaglenni cyfrifiadurol megis Word, Excel ag Outlook.		Ffurflen Gais a Chyfweliad
	Y gallu i ddelio gyda gwybodaeth sensitif a chyfrinachol		Ffurflen Gais a Chyfweliad
	Rheolaeth amser effeithiol a'r gallu i gyrraedd targedau		Ffurflen Gais a Chyfweliad
Iaith	Y gallu i gyfathrebu'n rhugl, cywir a hyderus yn ysgrifenedig ac ar lafar yn Y Gymraeg		Ffurflen Gais a Chyfweliad